Rhif 26
# Yr Hen Wlad
Mai 2000

## At Gymry Patagonia

**Cyfarchion i chwi o Gymru yn haul ac awyr las mis Mai. Mae tywydd mor braf ar ddechrau Mai yn anarferol i ni yma. "Terfysg ym mis Mai, haf gwlyb" meddent yn ardal Gwytherin, Dinbych.**

**Mae gan bobl Nefyn (ar arfordir y gogledd orllewin lle mae'r gwanwyn ychydig yn gynharach nag yn ardal Dinbych) ddau ddywediad sef "Mae terfysg cyn mis Mai yn erthylu'r haf" (sef yn difetha'r haf), yn ogystal â "mae terfysg ym mis Mai yn setlo'r tywydd."**

**Amser a ddengys. A oes gennych chwi goelion tywydd tybed? Rhowch wybod.**

**Rhagflas yn unig yw ysgrif Mari Emlyn ar ei hail ymweliad â'r Wladfa gan fy mod yn anfon yr ysgrif lawn at Irma Hughes de Jones, gan obeithio y gall hi ei chynnwys yn *Y Drafod*. Mwynhad pur i mi oedd ei darllen ond nid oes digon o le i'w chynnwys i gyd yn y papur bychan hwn.**

**Gwerthfawrogaf eich llythyrau a'ch ymateb i'r gystadleuaeth a da oedd derbyn atebion un ymgeisydd trwy'r e-bost. Am y tro cyntaf ni lwyddodd neb i gael atebion perffaith y tro hwn. Colin Jones ac nid David Wyn Griffiths oedd "y cyfeilydd lwcus". Morfydd Thomas oedd yr ateb i "Mae hi'n codi arian" ('roedd Hazel Charles-Evans yn dderbyniol ond nid Aur Roberts a hithau gyda'i gilydd - "maent hwy" fuasai hynny). Ond tynnais enw Sara Borda, Trevelin, o'r het am fod yn un o'r rhai oedd o fewn trwch blewyn.**

**Daliwch ati i gystadlu a diolch am eich cefnogaeth.**

*Golygydd: Marian E. Roberts, Gorwelion, Cae Bryn, Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7SU E-bost Yr Hen Wlad yw: marian_elias@hotmail.com*

---

### Dymuniad

Gweld, ryw adeg, aildroedio - yr undaith,
A'r un ffrindiau eto,
Yr un hwyl a'r un wylo
Yn ôl y drefn yr ail dro.


Dic Jones

# Athrawon o Gymru

Dyma enwau'r athrawon o Gymru sydd newydd eu penodi i hybu'r Gymraeg yn Y Wladfa dan gynllun Y Cynulliad a'r Cyngor Prydeinig mewn cydweithrediad â Chymdeithas Cymru-Ariannin: *Rhys Llewelyn Jones* o Nefyn (y dref sydd wedi gefeillio â Phorth Madryn), athro yn Ysgol Cwm Gwyddon, Aber-carn, Gwent; *Menna Mererid George* athrawes o Bontarddulais; *Rhian Eleri Jones*, darlithydd yng Ngholeg Llysfasi; *Nia Lewis* athrawes o Landudno; *Nans Rowlands,* athrawes o Betws Gwerful Goch (chwaer John Rowlands fu yn Y Wladfa y llynedd).

Byddant yn cychwyn ar eu gwaith yn ystod mis Mai.

# Arlunydd o fri



Llun: *Yr Hen Wlad*

Mae arddangosfa o luniau gan arlunydd o Borth Madryn yn Oriel Bangor ar hyn o bryd.

Mae Alex Dukal, 33 oed, wedi defnyddio'r cyfrifiadur i greu ei luniau ond go brin y sylwai neb ar hynny gan mor feistrolgar ydynt. Maent mewn lliw ac yn gelfydd iawn a'i allu i ddarlunio pobl yn gryn gamp. Cip sydyn iawn a gefais i ar y lluniau, fodd bynnag, gan fod criw teledu yn ffilmio'r arlunydd a'i luniau ar y pryd ond un o'r lluniau a gofiaf yn dda yw llun ci mawr yn edrych yn ddisgwylgar trwy ffenestr ar deulu yn bwyta pryd o fwyd.

Bydd yr arlunydd yn gweithio am gyfnod byr yn Oriel Goffa Coleg Iâl, Wrecsam, yna ym Mangor, yna yn treulio dau fis yn Sbaen cyn dychwelyd i Batagonia.

Treuliodd Alex Dukal bum mlynedd yn Ysgol Gelf Genedlaethol Manuel Belgrano, Buenos Aires ac mae hefyd yn Gyfrifydd. Bu yn Nefyn ddwy flynedd yn ôl, adeg y gefeillio.

# Siapanogi



Yr Athro Setsuko Nakano a'r Athro Gwyn Thomas

Cyfieithwyd casgliad o straeon gwerin Cymraeg o'r Canol Oesoedd i'r Siapanaeg a'u cyhoeddi yn Tokyo.

Yr Athro Setsuko Nakano o Brifysgol Otsuma, Tokyo, a gyfieithodd *Y Mabinogion*, casgliad o 11 chwedl draddodiadol a bu'n cydweithio'n agos â'r Athro Gwyn Thomas o Adran Gymraeg Prifysgol Bangor dros y flwyddyn ddiwethaf.

Dangosodd Yr Athro Nakano ddiddordeb mewn llenyddiaeth Geltaidd a Chymraeg ers 25 mlynedd a chyhoeddi'r cyfieithiad yw penllanw'r gwaith.

Disgrifiodd yr adolygydd Ichgiro Takasugi y llyfr fel "blodyn llenyddiaeth Gymraeg a Cheltaidd wedi ei drawsblannu i bridd Siapan".

O'r *Herald*, Ebrill 15, 2000

# Ynni Niwclear

Caewyd un o adweithyddion Gorsaf Ynni Niwclear Yr Wylfa, Ynys Môn, yr wythnos diwethaf.

Golyga hyn golled o tua £2000,000 y dydd i'r Cwmni.

Pan ollyngwyd camera teledu i grombil yr adweithydd yn ystod archwiliad blynyddol fe ddarganfuwyd marciau annisgwyl.

"Dydan ni ddim yn siwr beth sydd wedi achosi'r marciau hyn eto," meddai llefarydd dros y Cwmni. "Fe all gymryd wythnosau i ddatrys y broblem."

Ym mis Ionawr eleni adroddodd Yr Herald sut y bu rhaid cau adweithydd arall gan i ryw beiriant fynd yn sownd ynddo ac o fewn dau funud cafwyd problem drydanol yn ystafell reoli yr adweithydd arall.

Mae'r mudiad gwrth-niwclear PAWB yn pryderu cymaint am y modd mae'r Wylfa'n cael ei rhedeg fel bod aelodau wedi gofyn am ymchwiliad cyhoeddus.

Crynhowyd o'r *Herald*, Ebrill 29, 2000

# Ar gefn beic yn Y Wladfa

Yr her o deithio wyth can milltir drwy fynyddoedd yr Andes sy'n wynebu gwraig o Fôn.



Llun: *Yr Herald*

Beicio ym Mhatagonia fydd Jenny Pye o Lanbedrgoch, Ynys Môn, ym mis Medi wrth iddi gasglu arian ar gyfer uned gancr newydd Ysbyty Gwynedd.

"Rydw i newydd fod yn Sierra Nevada yn Ne Sbaen yn ymarfer gan fod yno fynyddoedd tebyg i'r Andes," meddai Jenny, enillydd cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Casnewydd, yn 1988.

"Mae'n debyg y byddan ni'n beicio tua chan milltir y dydd," ychwanegodd. "Dydw i ddim wedi gwneud taith mor hir â hyn o'r blaen ond 'dwi wedi bod eisiau mynd i Dde America erioed."

"Mae fy mab, fy chwaer a'i chariad, yn ogystal â John Parry, (ffrind o Moelfre, sydd wedi gwneud y daith o'r blaen), ymysg y criw o chwech sy'n dod efo mi," eglurodd.

"Bydd unrhyw arian a gesglir wedi cyrraedd y nod o £2,000 yn mynd tuag at Ysgolion Cymraeg Y Wladfa."

O'r *Herald*, Ebrill 29, 2000

# Blerwch

Bu farw Graham Reeves, 70 oed, ym mis Ebrill a hynny bump wythnos ar ôl i lawfeddygon mewn Ysbyty yn Llanelli dynnu ei aren iach mewn camgymeriad am yr un heintiedig.

Mae'r Heddlu yn ogystal â Choleg Brenhinol y Llawfeddygon yn ymchwilio i'r mater. Yn y cyfamser mae'r llawfeddyg a'r tri meddyg oedd yn ei gynorthwyo wedi cael eu hatal o'u gwaith tra bo'r ymchwiliad yn parhau.

---

Boed lawn dy lys  
Boed lon dy wledd  
Ond cofia flys  
Yr hwn na fedd.

Eifion Wyn

# Tynnwr Lluniau



Llun: *Yr Herald*

Cyn-gigydd o Landwrog ger Caernarfon yw'r cyntaf yng Ngwynedd i ennill gwobr arbennig am ffotograffiaeth.

Mae Joe Griffiths wedi ei wneud yn aelod o Gymdeithas y Ffotograffwyr Priodasau a Darluniau am ei waith gwreiddiol a dyfeisgar.

Yn ôl Mr Griffiths:

"Dechrau tynnu lluniau o ran pleser wnes i ond gofynnodd un o'm ffrindiau i mi dynnu lluniau o'i briodas. A chychwynnodd y busnes o'r fan yna."

"Ar ôl tair blynedd o dynnu lluniau yn rhan amser cefais fy niswyddo o'm swydd fel cigydd felly penderfynais wneud gyrfa o dynnu lluniau."

"Yn ystod y chwe blynedd ers y briodas gyntaf yna rydw i wedi ennill nifer o wobrau a chymwysterau ond hon yw'r orau."

Yn awr mae cyplau sydd eisiau i Mr Griffiths dynnu lluniau eu priodas yn gorfod trefnu ddeunaw mis ymlaen llaw."

O'r *Herald*, Ebrill 1, 2000

# Dathlu Gŵyl Ddewi

... Mi gofia i ddathliad Gwyl Ddewi eleni am byth.


Pwy all anghofio 300 o blant ac ieuenctid ar lwyfan a llawr Neuadd Pritchard Jones ym Mangor yn gorffen eu sioe, pob un yn canu wedi ei wisgo mewn du a phob un wedi rhoi ei orau i greu profiad gyda'r mwyaf theatrig a welodd Bangor erioed.

Ysgol Glanaethwy oedd yn gyfrifol am "Chwain", sioe uchelgeisiol i ddathlu Gŵyl Ddewi, i ddathlu deng mlynedd o fodolaeth yr ysgol ac i ddathlu'r milflwydd. Ac er mwyn dathlu'r tri roedd yn rhaid anelu'n uchel....

Roedd yr hen ias yna yn rhedeg ar hyd y meingefn wrth glywed y canu ac wrth ystyried pa mor eithriadol o ffodus yw rhai o blant y cylch wrth gael profiadau mawr fel yma ar garreg eu drws.

William Owen yn *Goriad*, Mawrth 2000

# Actores y flwyddyn



Dyfarnwyd yr anrhydedd o Actores y Flwyddyn yng Nghymru i Nia Roberts mewn seremoni gerbron 1,300 o bobl yng Nghaerdydd ar y dydd olaf o Ebrill.

Er mai yn y ffilm *Solomon a Gaenor* y gwnaeth enw iddi ei hun (sef y ffilm a enwebwyd am wobr Oscar yn America), am gymryd rhan mewn ffilm arall yr enillodd y teitl uchod. *Lois* oedd enw'r ffilm, sef hanes myfyrwraig ifanc a oedd yn benderfynol o gadw'n ddistaw am ei harferion bwyta.

Mae Nia yn ferch i Gruff ac Eifiona Roberts sydd yn adnabyddus yn Y Wladfa fel athrawon Cymraeg.

# Twristiaeth


Gobaith Bwrdd Croeso Cymru yw y bydd nifer y swyddi yn y diwydiant twristiaeth yn codi o'r 100,000 presennol i 125,000 ymhen deng mlynedd.

Yn ôl Eleri Llwyd Jones sy'n rheoli un o westai mawr Dulyn yn Iwerddon ac a fu cyn hynny yn rheoli gwesty yng Ngwynedd nid oes llawer o wahaniaeth rhwng safonau'r gwestai yn y ddwy wlad ond oherwydd bod Iwerddon wedi dod yn wlad gyfoethog gall ei gwesty hi ddibynnu ar bobl busnes i'w gadw'n brysur bron iawn trwy gydol y flwyddyn.

"Un peth sy'n arbennig am Iwerddon yw'r modd y mae pobol yn defnyddio'u traddodiadau i drosglwyddo'u hunain fel gwlad wahanol," meddai. "Mae eu traddodiadau hwy'n cael eu defnyddio bob dydd. Nid ar gyfer yr ymwelwyr yn unig y maen nhw - mae'r bwyd a'r diod, yr adloniant, y canu a'r dawnsio yn rhan o fywyd pob dydd."

"Hwyrach tasen ni'n gwneud mwy o hynny yng Nghymru, y buasai mwy o bobol yn dod," meddai.

# Dysgu Cymraeg yn Efrog Newydd



Y dosbarth gyda'u hathro Robert J. Jones

Mae saith o fyfyrwyr rhwng 18 a 70 oed yn dysgu Cymraeg yng Ngholeg Bro Fulton-Montgomery yn Nhalaith Efrog Newydd.

Sefydlwyd y Coleg ym mherfeddion y wlad wrth draed mynyddoedd yr Adirondacks. Mae hefyd yn ardal dlawd iawn efo llawer o ddiweithdra a llawer o'r hen ffatrioedd wedi cau. Mae'r trefi bychain yn marw ar eu traed a'r ffermydd yn cael eu gwerthu'n rhad.

Tua 1,800 o fyfyrwyr sydd yn y Coleg ac maent yn dilyn yn bennaf gyrsiau gradd dwy flynedd. "Mae'r dosbarth Cymraeg yn dysgu'n dda iawn," yn ôl y tiwtor, Robert F. Jones. "Wn i ddim beth fydd dyfodol y cwrs ond yn awr a minnau'n gwybod fod diddordeb bwriadaf ei gynnig unwaith eto yn yr hydref."

# Achub bywyd ei fam



Llun: *Yr Herald*

Cafodd bywyd mam ei achub gan ei mab pedair oed wedi iddi dagu a methu â chael ei hanadl.

Roedd Marian Jones, Chwilog ger Pwllheli, wedi bod yn cyfarfod ei mab Dylan o'r ysgol yn ddiweddar. Rhoddodd felysion iddo a chymryd un ei hun, ond llyncodd y da-da yn gyfan a glynodd yn ei gwddf.

Stopiodd y car ac aeth allan i geisio cael ei gwynt. Erbyn hynny roedd yr eneth fach ddwyflwydd oed yng nghefn y car wedi dechrau crio ond dywedodd Dylan wrthi:


"Paid â chrïo Caryl, mi wna i wneud Mam yn well."

Pan ddaeth ei fam yn ei hôl i'r car dechreuodd Dylan guro ei chefn ac yna dechreuodd ddod ati ei hun.

"Mae Dylan wedi achub fy mywyd yn bendant," meddai'r fam. "Roeddem mewn rhan anghysbell o'r Lôn Goed a 'doedd yna neb yn agos yn unman."

O'r *Herald*, Ebrill 1 2000

# Pentre'r We



*http://www.penrhyndeudraeth.co.uk*

Mae pentref yng Ngwynedd wedi bod yn cymryd rhan mewn cynllun arbrofol am flwyddyn gyfan.

Erbyn hyn mae 50 o deuluoedd a busnesion ym mhentref Penrhyndeudraeth ger Porthmadog wedi cael cymhorthdal sydd yn cyfateb i hanner cost prynu cyfrifiadur, argraffydd, cyswllt â'r we a chost galwadau ac mae dros 50 o bobl yn dilyn cyrsiau i ddefnyddio'r cyfrifiadur a'r rhyngrwyd. Y nod yw datblygu sgiliau newydd sydd mor bwysig os am greu swyddi.

Ar y rhif uchod gellir gweld lluniau o'r pentref ddoe a heddiw, amserlenni bws a thrên, archebu llyfrau o'r llyfrgell a chael gwybodaeth am fusnesion a gwasanaethau cyhoeddus lleol (e.e. enwau a rhifau ffôn y meddygon, a'r swyddfeydd lleol, ac yn y blaen). Cafwyd arian o Ewrop, Cyngor Gwynedd, ac yn y blaen, i hyrwyddo'r cynllun hwn a dyma'r tro cyntaf erioed i gynllun o'r fath gael ei gynnal ym Mhrydain.

# Ail ymweliad Mari Emlyn

Yn fuan ar ôl marwolaeth ein Mam penderfynodd fy chwaer a minnau fynd ar bererindod i Batagonia. Roeddem ers blynyddoedd wedi clywed hyd at syrffed am y Wladfa ond y noson y bu Mam farw cafodd y ddwy ohonom ein rhyfeddu gan nifer y galwadau ffôn o bendraw'r byd yn cydymdeimlo â ni.

Cawsom lythyrau cysur dirifedi gan Wladfawyr na wyddem ni ar wyneb daear pwy oedden nhw. Ar ddiwrnod ei hangladd ym Mhwllheli cynhaliwyd gwasanaeth coffa iddi ym Mhatagonia. Roedd yn rhaid i'r ddwy ohonom fynd yno i weld beth yn union oedd yr apêl.

Cawsom daith fythgofiadwy ac mi rydw inna fel Mam wedi mopio efo'r lle, gymaint felly nes i mi benderfynu mynd yn ôl yno eto, ar fy mhen fy hun yn tro hwn. Dwi'n sgwennu'r pwt yma gwta fis ers dychwelyd i Gymru. Ydw rydw i nôl ond mae rhan ohonof yn dal ar ôl ym Mhatagonia.........

O'r *Goriad* (Papur Bro ardal Bangor), Mawrth 2000

# Priodas



Ebrill 8fed, 2000 Llun: Aur Roberts

Priodas Verónica Paola Jones, Buenos Aires a Gareth L. Kiff yng Nghapel Bethel, Rhiwbeina, Caerdydd. Ar y chwith: Sylvia (Mam wen Veronica), Walter Ariel Brooks (Comodoro Rivadavia) ac ar y dde: Glory Roberts.

Meddai Aur Roberts, Llanuwchllyn am y briodferch: "Pan ddaeth Verónica i Goleg Harlech i ddysgu Cymraeg a Saesneg ychydig yn ôl ni fedrai eu deall ond rhyfeddod mawr i mi oedd ei bod wedi dysgu cymaint erbyn diwedd ei thymor cyntaf."

"Pan aeth i ddilyn cwrs hyrfforddiant pellach yn y Gymraeg yng Ngholeg Llambed yr oedd Gareth yn diwtor yno a dyna sut y cyfarfu'r ddau." Saesneg yw mamiaith Gareth ond cafodd gystal hwyl ar ddysgu'r Gymraeg nes dod yn swyddog i Gymdeithas yr Iaith Gymraeg ac wedyn i Blaid Cymru. Erbyn hyn mae'n gweithio i Fenter Caerdydd. Mae Veronica yn dilyn cwrs dan hyfforddiant Dr Robert Owen Jones yn Y Brifysgol yng Nghaerdydd.

# Cwmni Hyder


Mae Hyder, un o gwmniau mwyaf Cymru, ar fin cael ei werthu am ei fod mewn dyledion o £1.9 biliwn.

Dŵr Cymru oedd sylfaen Cwmni Hyder ac roedd Dŵr Cymru yn gyfrifol am bopeth yn ymwneud â dwr o gyflenwi dwr i'n tai i gadw'r traethau, y llynnoedd a'r afonydd yn lân a gofalu am garthffosiaeth.

Ond penderfynodd Hyder ehangu a phrynodd gwmniau eraill, fel Trydan De Cymru, er enghraifft, heb fedru talu amdanynt.

Y newyddion diweddaraf yw fod gan gwmni o America ddiddordeb yn Hyder a bod Cwmni Banc Nomura o Siapan eisoes wedi cynnig ei brynu am chwarter ei werth.

# Lladron



*Abaty Glyn-y-Groes ger Llangollen*

Mae Abaty wedi gofyn i bobl ddychwelyd creiriau hanesyddol sydd wedi eu lladrata.

Codwyd Abaty Glyn-y-Groes yn y ddeuddegfed ganrif ond mae lladrata wedi bod yn broblem yno ers blynyddoedd lawer. Yn ystod y gaeaf y daw'r lladron fel arfer pan na fydd carafanwyr na gwersyllwyr o gwmpas ac weithiau defnyddir cerrig yr Abaty i addurno gerddi.

O hyn ymlaen bydd Cyfeillion yr Abaty yn gwylio'r safle ac yn rhoi gwybod i'r heddlu os bydd rhywun yn ymddwyn yn amheus.

## Llythyr Owain Glyndŵr

Mae Arddangosfa Owain Glyndŵr bellach wedi agor yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth. Y prif atyniad yw Llythyr Pennal sef llythyr oddi wrth Owain Glyndŵr at Frenin Ffrainc.

Yr oedd dau Bab yn y cyfnod hwn, un yn Rhufain a'r llall yn Ffrainc. Yr oedd Owain Glyndŵr yntau, fel Brenin Lloegr, wedi cadw'n ffyddlon i'r Pab yn Rhufain. Yn awr yr oedd y Ffrancwyr yn pwyso arno i gydnabod y Pab yn Ffrainc.

O ganlyniad galwodd Owain Glyndŵr ei gynghorwyr ynghyd i Bennal yn ymyl Machynlleth ac ar Fawrth 31 1406 anfonodd y llythyr enwog at Frenin Ffrainc yn dweud bod Senedd Cymru yn fodlon cydnabod eu Pab hwy ar yr amodau canlynol:

1. Yr oedd Eglwys y Cymry i fod yn annibynnol ar Loegr.
2. Dim ond dynion yn medru Cymraeg oedd i'w penodi'n esgobion ac yn offeiriad yng Nghymru.
3. Yr oedd yn rhaid rhoi pen ar yr arfer o anfon arian o Gymru i gynnal mynachlogydd a cholegau yn Lloegr.
4. Yr oedd Cymru i gael dwy brifysgol i addysgu'r gwŷr eglwysig yn unol â delfrydau Cymreig.

Yn ôl haneswyr dyma un o'r dogfennau pwysicaf yn hanes Cymru. Y mae'n ddogfen bwysig i Ffrainc hefyd gan nad ydynt yn fodlon gollwng eu gafael ynddi. Bydd gwarchodwyr yn ei gwylio ddydd a nos am y chwe mis y bydd yn Aberystwyth.

# Yng Nghlust y Teleffôn

**Llongyfarchiadau**

• i'r Bonwr Clydwyn ap Aeron Jones am yr anrhydedd a ddaw i'w ran yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Llanelli, pan gaiff ei urddo â'r wisg wen oherwydd ei gyfraniad arbennig i gerddoriaeth Y Wladfa. Ym mis Mehefin y datgelir enwau'r rhai a anrhydeddir gan Orsedd y Beirdd ond caniataodd Y Cofiadur i'r *Hen Wlad* gyhoeddi'r newydd ar gyfer pobl Y Wladfa yn y golofn hon y tro hwn.

**Clywsom**

• fod Tegai Roberts wedi bod yn siarad am Y Wladfa yn y Senedd yn Buenos Aires a bod Côr y Gaiman wedi bod yn canu yno.

• fod sôn fod 15 o bobl yr Andes yn dod i Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Llanelli, ym mis Awst eleni.

• fod Walter Ariel Brooks, Commodoro Rivadavia, yn astudio Cymraeg dan ofal Dr Robert Owen Jones yng Nghaerdydd. Dim ond ers blwyddyn a thri mis y mae'n dysgu'r iaith ond llwyddodd i'r fath raddau nes ei fod yn barod i sefyll arholiad Safon A ym mis Mehefin eleni.

• gyfres o raglenni gan Hywel Gwynfryn o'r Wladfa ar Radio Cymru yn ddiweddar.

• am ymweliad Carlos Caffani a'i wraig Susanna â Chaerdydd yn ddiweddar. Ganed Carlos yn Nhreorki a symudodd y teulu i Buenos Aires pan oedd ef yn 9 oed. Mae'n fab i Eurgain Thomas ac yn perthyn i Alwina Thomas, Gaiman.

• fod Catrin Morris (sydd newydd gwblhau ei gwaith fel un o athrawon Cymraeg Y Wladfa) wedi dod i briodas ei chwaer yng Nghymru ym mis Ebrill yng nghwmni ei dyweddi Milton Junjen o Drelew. Mae'r ddau bellach wedi dychwelyd i'r Wladfa a byddant yn priodi yno ym mis Awst.

• fod sioe gerdd (gwaith comisiwn) gan Hector Ariel Macdonald o'r Gaiman wedi ei pherfformio yng Ngorllewin Cymru gan Gôr Ceredigion dan arweiniad Islwyn Evans (a fu'n beirniadu yn Eisteddfod y Wladfa yn ddiweddar). • fod Alicia Picon wedi dychwelyd i Bontypridd ar ôl bod ar wyliau yn Y Wladfa.

• mai Donald Thomas (mab Evan Thomas cyn Olygydd Y *Drafod*) a'i fab yntau a gafodd anrhydedd Cymdeithas Dewi Sant eleni fel cydnabyddiaeth am argraffu'r *Drafod* ac am waith y mab gyda *El Regional* y cyhoeddwyd ynddo lawer o hanes y Cymry ar hyd y blynyddoedd. Cyffyrddwyd pawb pan alwodd y ddau ar eu Mam a'u Nain, Irma Hughes de Jones, i'r llwyfan.

# David Jones

Yr enw mwyaf poblogaidd ar ddynion yng Nghymru a Lloegr yw David Jones. Y mae 15,763 ohonynt wedi eu cofrestru efo Meddygon Lleol er 1991.

# Pen-blwydd Y Cynulliad

Un o'r ychydig raglenni ardderchog sydd ar Radio Cymru bellach yw *Dros fy Sbectol* gan John Roberts Williams (perthynas i Irma Hughes de Jones). Rhaglen wythnosol ydyw yn bwrw golwg bersonol ar y newyddion.

Ei destun y bore yma (Mai 13) oedd Pen-blwydd cyntaf Y Cynulliad.

Yr hyn a gaed ym mhapur y *Western Mail,* meddai, oedd cerdyn pen-blwydd yn dangos llun o'r plentyn bach Joshua Harding a aned ar yr union ddiwrnod pan agorwyd y Cynulliad ym mis Mai y llynedd. Y mae Joshua wedi dechrau cerdded, siarad a magu dannedd. Dal yn wantan y mae'r Cynulliad, heb fagu dannedd a heb fedru cerdded heb gymorth yr awennau o Westminster gan mai yno y mae'r gwir awdurdod o hyd.

Byrdwn sgwrs John Roberts Williams oedd ei siomedigaeth yng nghefnogaeth y Cynulliad i'r Gymraeg. Sais a benodwyd o'r dechrau i fod yn gyfrifol am ein hiaith a'n diwylliant ac mae'n dal yn ei swydd."Faint fedr dyn felly ddeall am y cefndir ac yma mha wlad arall y gallasai'r fath benodiad ddigwydd?" gofynnodd. "Mae fel dewis dyfarnwr ar gêm bêl-droed a hwnnw'n ddall bost."

# ???

Chwiliwch am yr atebion yn y papur hwn. Os anfonwch at y Golygydd erbyn Gorffennaf 21 2000 (gan roi eich enw) rhoir eich ymgais mewn het a'r ymgais gywir gyntaf a dynnir ohoni gaiff gyhoeddi ei enw yn y rhifyn nesaf o'r *Hen Wlad.*

1. Pwy sy'n rheoli gwesty?
2. Pwy oedd yn gwisgo dillad duon?
3. Nid dyma'r tro cyntaf iddo ddod â'i feic.
4. Beth wnaeth Dylan?
5. Faint gafodd eu diswyddo?
6. Mae hon wedi dod yn wlad gyfoethog.
7. Maent am briodi yn yr haf.
8. Beth yw bywoliaeth Nia?
9. Mae hwn yn cael ei warchod ddydd a nos.
10. Pa Gwmni sydd mewn dyfroedd dyfnion?

Cydnabyddir yn ddiolchgar ganiatâd *Yr Herald* i ddyfynnu rhai o'u storïau ac atgynhyrchu'r lluniau a nodir. Defnyddiwyd peth gwybodaeth o *Cymru a'r Byd* (y papur dyddiol ar y We) a'r llyfr *Yr Amddiffynwyr* (David Fraser), Cyfrol II, 1066-1485 (Gwasg Prifysgol Cymru), 1967. Diolch hefyd i'r *Goriad* ac i Aur Roberts.